# Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth Cylch Gorchwyl a Threfniadau Gweithredu

| **Dyddiad:** 25 Gorffennaf 2024 | **Fersiwn:** 9 |
|---|---|
| **Dyddiad Adolygu:** Yn flynyddol | |

## 1. Cyflwyniad

Yn unol ag Adran B, 3 a 7 o'r Rheolau Sefydlog a Chynllun Dirprwyo'r Ymddiriedolaeth, bydd y Bwrdd yn enwebu pwyllgor yn flynyddol a fydd yn cael ei alw'n Bwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth a Thelerau Gwasanaeth.

Mae'r cylch gorchwyl a'r trefniadau gweithredu manwl a osodwyd gan y Bwrdd mewn perthynas â'r Pwyllgor hwn wedi'u nodi isod.

Mae'r cylch gorchwyl a'r trefniadau gweithredu hyn i'w darllen ochr yn ochr â'r cylch gorchwyl a'r trefniadau gweithredu safonol sy'n berthnasol i bob pwyllgor.

## 2. Diben

Nod y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth a Thelerau Gwasanaeth ("Y Pwyllgor") yw darparu'r canlynol:

- **cymeradwyo ar ran y bwrdd** faterion sy'n ymwneud â phenodi, terfynu, tâl a thelerau gwasanaeth y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Gweithredol ac uwch staff eraill**,** o fewn y fframwaith a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r cynllun dirprwyo. Gall hyn ymwneud â thelerau gwasanaeth adeg penodiad neu yn ystod gwasanaeth

- **cymeradwyo** cynigion ynghylch trefniadau terfynu, gan gynnwys y rhai o dan y Cynllun Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd, gan sicrhau bod taliadau terfynu yn cael eu cyfrifo a'u craffu'n briodol yn unol â chanllawiau perthnasol Llywodraeth Cymru.

- **sicrwydd** i'r Bwrdd mewn perthynas â threfniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer tâl cydnabyddiaeth a thelerau

gwasanaeth, gan gynnwys trefniadau dan gontract, ar gyfer y staff i gyd, yn unol â’r gofynion a’r safonau a bennwyd ar gyfer y GIG yng Nghymru.

- **Sicrwydd** i'r Bwrdd ar gynllunio a chyfansoddiad y Tîm Gweithredol, i gynnwys sicrwydd y cydymffurfir â'r telerau talu y cytunwyd arnynt.

**3. Pwerau Dirprwyedig**

Bydd y Pwyllgor yn cefnogi’r Bwrdd gyda’i gyfrifoldebau am dâl a thelerau gwasanaeth drwy **adolygu** a **chymeradwyo**’r canlynol fel y bo’n briodol:

- tâl cydnabyddiaeth a thelerau gwasanaeth ar gyfer y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Gweithredol, aelodau o'r Tîm Gweithredol a Rheolwyr Uchel Iawn eraill (VSMs) nad ydynt wedi’u cynnwys yn yr Agenda ar gyfer Newid na Thelerau ac Amodau Meddygol a Deintyddol; gan sicrhau bod y polisïau ar dâl cydnabyddiaeth a thelerau gwasanaeth fel y'u pennir o bryd i'w gilydd gan Lywodraeth Cymru yn cael eu gweithredu'n gyson

- penodiadau i swyddi'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Gweithredol a phenodiadau eraill (staff) ar lefel y Bwrdd (e.e Ysgrifennydd y Bwrdd).

- lefelau cyflog ar gyfer y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Gweithredol a phenodiadau eraill ar lefel Bwrdd (staff) – gan sicrhau bod yr awdurdodiadau gofynnol ar waith gan Lywodraeth Cymru.

- terfynu'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau'r Tîm Gweithredol.

- Terfynu penodiad aelodau a’u hatal dros dro yn unol â darpariaethau'r Rheoliadau

- Cadarnhau penodi, gwerthuso, disgyblu a diswyddo’r Cyfarwyddwyr Gweithredol ac unrhyw benodiadau eraill ar lefel y Bwrdd ac uwch weithwyr eraill, yn unol â Chyfarwyddiadau Gweinidogol e.e. Ysgrifennydd y Bwrdd

- y system rheoli perfformiad sydd ar waith ar gyfer Cyfarwyddwyr Anweithredol, y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau’r Tîm Gweithredol a chael sicrwydd mewn perthynas â’r system sydd ar waith.

- Ystyried a chymeradwyo dileu swyddi a Cheisiadau Rhyddhau'n Gynnar, gan nodi, lle bo'r setliad yn £50,000 neu'n uwch bod angen derbyn cytundeb dilynol gan Lywodraeth Cymru.

- Ystyried a chymeradwyo unrhyw gytundebau diswyddo cyflogaeth/setliadau hawlio lle mae swm y setliad dros £50,000, neu y gellid ei ystyried yn newydd, yn ddadleuol neu'n ôl-weithredol. Bydd y Prif Weithredwr yn cymeradwyo cytundebau diswyddo cyflogaeth/setliadau hawlio o dan £50,000.

O ran ei rôl yn darparu **cyngor** i'r Bwrdd, bydd y Pwyllgor yn gwneud sylwadau penodol ar y canlynol:

- cynigion i wneud taliadau ychwanegol i ymgynghorydd.

**4. Aelodaeth, Mynychwyr a Chworwm**

### 4.1 Aelodau

O leiaf bedwar aelod, yn cynnwys:

| | |
| --- | --- |
| Cadeirydd: | Cadeirydd neu Is-Gadeirydd yr Ymddiriedolaeth |
| Aelodau: | Cyfarwyddwyr Anweithredol x 3 (cynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol lle bo modd)<br><br>Y Prif Weithredwr (ac eithrio ar gyfer materion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r Prif Weithredwr) |

### 4.2 Trwy Wahoddiad

Yn ôl yr angen ond fel arfer i gynnwys:
Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid
Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd

Gall Cadeirydd y Pwyllgor wahodd y canlynol i ddod i gyfarfod cyfan neu ran o gyfarfod i'w gynorthwyo gyda'i drafodaethau ar unrhyw fater penodol:

- unrhyw swyddog arall;
- a/neu unrhyw rai eraill o fewn neu o’r tu allan i’r sefydliad

### 4.3 Cworwm

Rhaid i o leiaf **dri** aelod fod yn bresennol i sicrhau cworwm y Pwyllgor, a rhaid i un ohonynt fod yn Gadeirydd (neu Is-gadeirydd lle mae un wedi’i benodi/phenodi).

## 5. Amlder y Cyfarfodydd

Bydd Cadeirydd y Pwyllgor, mewn cytundeb ag Aelodau'r Pwyllgor, yn pennu amseriad ac amlder cyfarfodydd, yn ôl yr angen. Disgwylir y bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn, yn gyson â chynllun blynyddol Busnes y Bwrdd.

## 6. Perthnasedd y Rheolau Sefydlog i Fusnes y Pwyllgor

Mae’r gofynion ar gyfer cyflawni busnes fel y nodir yn Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth yr un mor berthnasol i weithrediad y Pwyllgor, ar wahân i’r meysydd canlynol:

- Cyfarfodydd a gynhelir yn Gyhoeddus – Ni fyddai'r Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth yn cael eu cynnal yn gyhoeddus fel rheol.
- Ni chyhoeddir agendâu, adroddiadau na chofnodion.